CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 29 HYDREF 2019 YN NHŶ HASTINGS

Yn bresennol: Mr Ceri Stradling (Cadeirydd Dros Dro); Mr David Powell (Dirprwy Gadeirydd Dros Dro); Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Matthew Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes).

Amser Dechrau: 10:10
Amser Gorffen: 12:30

Ymddiheuriadau: David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes)

1. Datganiadau Buddiant

1.1. Datganodd Nathan Sweetman fuddiant ym Mro Morgannwg.

2. Gwybodaeth Friffio gan y Cadeirydd

2.1. Arweiniodd y Cadeirydd drafodaethau ynglŷn â phryd mae'r arolwg etholiadol o Sir Fynwy yn debygol o ddechrau. Yn ystod Cyfarfod Cyswllt diweddar â Llywodraeth Cymru (LIC), nodwyd bod y broses ar gyfer gwneud Gorchymyn Sir Fynwy ar waith a bod y tîm cyfreithiol yn gweithio arni.

2.2. Rhoddodd LIC adborth cadarnhaol ar y nodiadau briffio a oedd yn cael eu hanfon at yr is-adran noddi. Croesawyd y rhain a byddant yn parhau i gael eu hanfon ar ôl i Adroddiadau Argymhellion Terfynol gael eu cyhoeddi.

2.3. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r cyfarfod ar benodi Cadeirydd newydd CFfDLC. Mae'r broses yn parhau gyda LIC a disgwyliwyd y byddai modd penodi cyn y Nadolig.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar nifer o fân ddiwygiadau.

4. Materion sy'n Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 22 Hydref 2019 gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad a nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol:

- **(Mater 1)** Y Rhaglen Newid
- **(Mater 2)** Gwobr Iechyd y Gweithle Bach
- **(Mater 3)** Arolwg Ôl-arolwg

4.3. Cytunwyd ar y cynllun gweithredu ar gyfer **Mater 1** ac roedd gweithdy i'w gynnal gyda'r Comisiynwyr ar ôl y cyfarfod hwn i gwblhau'r trefniadau ar gyfer **Mater 3** yn derfynol.

4.4. O ran **(Mater 4)**, adroddwyd bod Cyfradd Danwydd Gynghorol HMRC, sef 4 ceiniog y filltir, yn berthnasol i geir cwmni yn unig. Felly, **cytunwyd** y dylid parhau i ddefnyddio'r cyfraddau milltiredd car presennol hyd nes bod LIC yn cyhoeddi canllawiau newydd.

4.5. Cytunwyd hefyd y byddai adroddiad ar y gwersi TGCh a ddysgwyd yn cael ei baratoi ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

5. Arolwg Etholiadol Bro Morgannwg – Opsiynau Drafft

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Hydref 2019 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, sef y Bont-faen, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Saint-y-brid, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol y Bont-faen, Llandŵ, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Saint-y-brid.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu gwell cydraddoldeb etholiadol yn gyffredinol.
- Mae'n gwella'r amrywiant etholiadol ar gyfer wardiau etholiadol Sain Tathan a Saint-y-brid heb newid y trefniadau presennol llawer.

- Mae'n darparu'r cydraddoldeb etholiadol gorau ar gyfer yr ardal ar yr un pryd â chynnal cysylltiadau cymunedol a chysylltiadau trafnidiaeth gymaint â phosibl.
- Mae'n cydymffurfio'n rhannol â'r cynrychiolaethau a gafwyd.

Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 12 aelod, sy'n uwch na'r 10 aelod presennol.

5.3. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 2, sef Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown ac Illtyd, a **chytunodd ar opsiwn 4**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys deg ward etholiadol Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Colcot, Court, Cwm Talwg, Gibbonsdown, Highlight a Nant Talwg.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Mae'n osgoi creu ward etholiadol â phedwar aelod.

Argymhellodd y Comisiynwyr y dylai opsiwn 4 gael ei fabwysiadu oherwydd bod y cynllun hwnnw'n mynd i'r afael â'r amrywiant etholiadol yn Nhref y Barri yn y ffordd orau ar yr un pryd â mabwysiadu rhai o'r argymhellion mwy ymarferol ar gyfer newidiadau i ffiniau a wnaed yn y cynrychiolaethau. Mae hefyd yn ffafrio wardiau ag un aelod lle bynnag y bo'n bosibl. Byddai **opsiwn 2** yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad hefyd fel dewis amgen.

Mae opsiwn 4 yn dychwelyd cyfanswm o 20 aelod, sy'n uwch na'r 18 aelod presennol.

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer ward etholiadol Rhanbarth 3, sef Dinas Powys, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cadw ward etholiadol Dinas Powys ond yn lleihau nifer yr aelodau o bedwar i dri.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 3 aelod, sy'n llai na'r 4 aelod presennol.

5.5. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 4, sef Llanbedr-y-fro, y Rhws a Gwenfo, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol Llanbedr-y-fro, y Rhws, Sain Nicolas a Thresimwn a Gwenfo.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol, yn enwedig yng Ngwenfo.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant presennol yn yr ardal yn y ffordd orau.
- Mae'n cydymffurfio â rhan o'r gynrychiolaeth a gafwyd gan Gyngor Cymuned Gwenfo.

Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 6 aelod, sy'n uwch na'r 4 aelod presennol.

5.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 5, sef Cornerswell, Llandoche, Plymouth, St Augustine's a Stanwell, a **chytunodd ar opsiwn 2.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol Cornerswell a Llandoche, Plymouth, St Augustine's, a Stanwell.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Mae'n mynd i'r afael â'r orgynrychiolaeth ddisgwyliedig yn Llandoche.

Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 10 aelod, sy'n uwch na'r 9 aelod presennol.

5.7. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Rhoddir isod restr o'r enwau cytunedig yn y ddwy iaith:

Saesneg	**Cymraeg**
Baruc	Baruc

Buttrills	Buttrills
Cadoc	Cadog
Castleland	Castleland
Colcot	Colcot
Cornerswell and Llandough	Cornerswell a Llandoche
Court	Court
Cowbridge	Y Bont-faen
Cwm Talwg	Cwm Talwg
Dinas Powys	Dinas Powys
Gibbonsdown	Gibbonsdown
Highlight	Highlight
Llandow	Llandŵ
Llantwit Major	Llanilltud Fawr
Nant Talwg	Nant Talwg
Peterston Super-Ely	Llanbedr-y-fro
Plymouth	Plymouth
Rhoose	Y Rhws
St Athan	Sain Tathan
St Bride's Major	Saint-y-brid
St. Nicholas and Llancarfan	Sain Nicolas a Thresimwn
St Augustine's	St Augustine's
Stanwell	Stanwell
Sully	Silli
Wenvoe	Gwenfo

6. Rheoli Risgiau – Cofrestr Risgiau

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Hydref 2019 gan y Rheolwr Cyllid. **Nodwyd** bod y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi cael eu gweithredu.

6.2. **Cytunwyd** y byddai risg Gorfforaethol arall yn cael ei hychwanegu ynglŷn â risg peidio â chydymffurfio â Safonau 9 a 10 y Gymraeg, mewn perthynas ag ateb galwadau ffôn, o ganlyniad i broblemau yn ymwneud â'r system ffôn newydd sydd wrthi'n cael eu datrys.

7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Hydref 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nodwyd** y sefyllfa bresennol o ran y gyllideb a'r tanwariant blynyddol amcangyfrifedig. **Cytunwyd** y byddai arian yn cael ei drosglwyddo i gyllidebau lle y rhagfynegwyd gorwariant yn y cyfarfod diwethaf, ac y byddai ffigur wedi'i ddiweddaru ar gyfer y tanwariant amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gyfrifo ar gyfer y cyfarfod ym mis Tachwedd.

8. Gwerthuso Effeithiolrwydd y Bwrdd

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Hydref 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Cytunwyd** y dylai pob Comisiynydd lenwi Holiadur Blynyddol i Werthuso Effeithiolrwydd y Bwrdd a'i ddychwelyd i'r Rheolwr Cyllid o fewn y pythefnos nesaf.

8.3. **Cytunwyd** y dylai aelodau staff lenwi'r holiadur hefyd ar ôl i'r Aelodau gyflwyno eu rhai nhw.

8.4. **Cytunwyd** y dylai canlyniadau'r adolygiad gael eu casglu ynghyd ac y dylai adborth gael ei roi i gyfarfod mis Rhagfyr.

9. Polisïau Adnoddau Dynol

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 30 Medi 2019 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

9.2. **Derbyniwyd** y polisi Lwfansau diwygiedig yn amodol ar ddileu'r adrannau yn ymwneud â 'Theipyddion' a 'Lwfans yr Ysgrifennydd Preifat'.

9.3. Derbyniwyd y polisi Diswyddo diwygiedig heb unrhyw newidiadau.

10. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 22 Hydref gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

10.2. **Cytunwyd** ychwanegu dadansoddiad pellach at yr amserlen cynnydd arolygon sy'n dangos y cymarebau fesul Cynghorydd yn ôl pob categori Cyngor.

10.3. **Nodwyd** cynnwys gweddill yr adroddiad.

11. Calendr Digwyddiadau

11.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr a'r cinio a'r cyfarfod Rhyng-Gomisiwn a oedd ar ddod yn Llundain ar 28 a 29 Tachwedd.

11.2. **Cytunwyd** y dylai'r Prif Swyddog Gweithredol lunio nodyn i'r Cadeirydd ar gyfer y Cyfarfod Rhyng-Gomisiwn yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

a) Adroddiadau Hygyrchedd
b) Y bleidlais i bobl ifanc 16 – 17 oed

12. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

12.1. Nid oedd unrhyw eitemau eraill i'w trafod.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 26 Tachwedd 2019